**David Collins**

Ymunodd David â thîm Un Llais Cymru ym mis Ioonawr 2024. Mae e'n canolbwyntio ar gefnogi ein trefniadau llywodraethu mewnol a bydd yn gyfrifol am ddatblygu canllawiau ar arfer polisi fydd yn werthfawr iawn i gynghorau. Gall David gynnig profiad helaeth o fyd llywodraeth leol a'r trydydd sector i rôl Swyddog Datblygu Arfer Llywodraethiant a Pholisi.

Cafodd David yrfa hir gyda Chynghorau Dinas Caerdydd a Chasnewydd, a gweithiodd mewn meysydd fel gweinyddu pwyllgorau, datblygu polisi a gwasanaethau cyfreithiol. Yn sgil agenda moderneiddio llywodraeth leol datblygodd David i rôl Prif Swyddog Craffu, lle yr helpodd ei sgiliau dadansoddol i gynnig atebion i nifer o heriau strategol a gweithredol.

Yn 2012, daeth David yn Glerc Cyngor Cymuned Cwmbrân, cyn symud at Gyngor Cymuned Radur & Threforgan yn 2022. Meddai David, "Rwyf yn credu y bydd fy mhrofiad fel Clerc i gynghorau lleol amrywiol eu maint ar draws Cymru yn fy helpu i ddarparu gwasanaeth o safon i Un Llais Cymru a'i haelodau. Bydd fy nealltwriaeth ehangach o'r tirlun cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd, a diwylliannol yng Nghymru yn ein helpu hefyd i adnabod a lledaenu arfer da ar draws y sector."

Y tu hwnt i'r gweithle, mae wedi gwirfoddoli gydag elusen Cymorth Cristnogol ers blynyddoedd lawer a daw â'i ddealltwriaeth o'r sector gwirfoddol i'w rôl yn Un Llais Cymru. Mae David hefyd yn ddeiliad tocyn tymor yng Nghlwb Pêl Droed Dinas Caerdydd ac ysgrifennodd sawl llyfr ar bêl droed a phynciau eraill. Mae'n aelod selog o loc y wasg erbyn hyn lle y mae ei adroddiadau gêm lliwgar yn disgrifio hynt a helynt ein timau pêl droed yng Nghymru.